# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 17 Hydref, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Cynghorydd I.A.N. Perry (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake. V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, E. Penn, J. Protheroe and S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: C.P. Franks, W.A. Hennessy a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

## 452 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 453 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi, 2023 fel cofnod cywir.

## 454 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## 455 ADRODDIAD DIWEDDARU AR Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 5 Hydref, 2023 gan y Rheolwr Gweithredol – Adfywio.

Roedd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn rhan o ymrwymiad ehangach Llywodraeth y DU i godi'r gwastad ym mhob rhan o'r DU. Roedd yn gymysgedd o gyllid refeniw a chyfalaf. Nod cyffredinol y gronfa oedd meithrin balchder mewn lleoedd a chynyddu cyfleoedd bywyd. O dan y nod hwnnw roedd tair blaenoriaeth buddsoddi: cymunedau a lleoedd; cefnogi busnesau lleol; a phobl a sgiliau.

Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y penderfyniadau a wnaed hyd yma mewn perthynas â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Adroddwyd

bod y proffil cyllido ar gyfer Bro Morgannwg yn parhau i fod yn un heriol, yn enwedig ar gyfer 2023/24. Am y rheswm hwnnw, rhoddwyd pwerau dirprwyedig i swyddogion a enwyd mewn ymgynghoriad â Deilydd Portffolio'r Cabinet perthnasol sy'n ymwneud â chyflwyno'r Cynllun Buddsoddi yn lleol. Roedd yr her o ran gallu gwario'r sawl elfen yn bodoli ar lefel ranbarthol ac felly ni fyddai'n hawdd ei goresgyn.

Cwestiynodd y Cynghorydd Hooper y broses ynghylch penderfynu sut roedd ceisiadau'n llwyddiannus a chyfansoddiad y Panel a sefydlwyd i werthuso prosiectau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gofynnodd hefyd sut y bu'r arian yn gweithio gyda chynlluniau Llywodraeth Cymru o ystyried bod yr arian yn dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU. Roedd cwestiwn terfynol y Cynghorydd Hooper yn ymwneud â Chwarae Teg a oedd wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn ddiweddar, a sut roedd cyllid yn cael ei reoli o dan yr amgylchiadau hynny. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai cyfansoddiad llawn y Panel yn cael ei rannu'n electronig, ond roedd yn cynnwys Aelodau'r Cabinet a Swyddogion o Dîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor. O ran Llywodraeth Cymru, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod swm o £212 miliwn wedi'i ddyrannu ar draws y rhanbarth, gyda £14 miliwn ar gyfer Bro Morgannwg. Roedd hynny'n llai na’r cyllid blaenorol gan yr UE, felly roedd wedi effeithio ar rai meysydd, fel addysg uwch. Roedd hynny'n golygu bod mwy o heriau mewn rhai ardaloedd, ond mewn rhai ardaloedd fel trawsnewid trefi roedd proses ar waith a oedd yn caniatáu i rai elfennau o brosiectau gael eu hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin. O ran Chwarae Teg, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw gyllid wedi'i ddyrannu i'r sefydliad hwnnw, felly roedd y Cyngor yn ystyried sut y gellid gwario'r arian a pha ganlyniadau y gellid eu cyflawni. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol y gallai fod angen i'r Cyngor, o safbwynt strategol ac oherwydd mai dim ond 18 mis oedd i wario'r arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ailystyried ei gynllun buddsoddi lleol a diwygio’r canlyniadau o ystyried y sefyllfa economaidd bresennol. Roedd hynny'n golygu y byddai'r Cyngor, dros y misoedd nesaf, yn gwneud darn o waith ynglŷn â’r canlyniadau yr oedd am eu cyflawni, a gallai rhai ohonynt fod yn rhanbarthol.

Gwnaeth y Cynghorydd Ernest sylw ar argaeledd wi-fi cyhoeddus, yn enwedig yn ardal Penarth, lle roedd y signal yn wael iawn a gofynnodd am well cysylltedd. Mewn ymateb, tynnodd y Rheolwr Gweithredol sylw at waith a wnaed gyda Chyngor Tref y Bont-faen fel ffordd o wella cysylltedd y dylid ei annog ar gyfer rhannau eraill o'r Fro. Yn ogystal, roedd y Cyngor yn gweithio ar ddatrysiadau gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'i raglen 'Trefi Clyfar'. Yn ddiweddar, roedd tref Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflwyno system llwybrydd a rennir gyda nifer o fusnesau lleol. Mae hon yn fodel cost isel a allai fod yn bosibilrwydd.

Cwestiynodd y Cynghorydd Protheroe gynlluniau'r Cyngor i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig mewn perthynas ag ynni a chan fod rhai pentrefi gwledig heb signal ffonau symudol. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Rheolwr Gweithredol at y gwaith da a wnaed mewn ardaloedd gwledig o gyllid blaenorol gan yr UE. Roedd maes tlodi tanwydd yn flaenoriaeth yr oedd angen ei hystyried yn fanylach, ond byddai'n her o ystyried amserlenni a therfynau amser y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae signal ffonau symudol yn un o’r meysydd o dan thema cysylltedd, ac roedd y Cyngor yn gweithio gyda darparwyr band

eang. Roedd cyfle i gymunedau wneud cais am gyllid, ond roedd y Cyngor hefyd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, yn enwedig mewn perthynas â'r argyfwng costau byw.

Tynnodd y Cynghorydd Penn sylw at gynlluniau prentisiaeth fel ffordd o gynorthwyo'r rhai a oedd wedi bod allan o waith ers amser maith. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod sawl prosiect yn cael ei redeg ar hyn o bryd ac roedd yn faes yr oedd y Cyngor am ei gryfhau. Yn rhanbarthol roedd prosiectau uwchsgilio yn cael eu dyfeisio trwy Fargen Ddinesig Rhanbarth Caerdydd. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'n darparu rhagor o wybodaeth am y prosiectau cysylltiedig.

Gofynnodd y Cynghorydd Protheroe a allai'r Cyngor edrych ar gynlluniau gyda'r nod o gefnogi plant oedd yn byw mewn rhannau gwledig o'r Fro. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod angen sylfaen dystiolaeth glir ar gyllid ond bod pecyn cymorth ar gael a allai gynorthwyo cymunedau.

Tynnwyd sylw at y defnydd o barciau sglefrio gan y Cynghorydd Penn fel ffordd o greu cyrchfannau arfordirol.

Dywedodd y Cadeirydd fod cyfle yno i Gynghorwyr godi syniadau ac awgrymiadau y tu allan i gyfarfod y Pwyllgor a gofynnodd am gyflwyno adroddiadau diweddaru mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Wedi hynny, gwnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) Bod adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio sy'n nodi'r cynnydd yn erbyn y dyraniadau fel y nodir yn yr adroddiad.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Caniatáu i ddiweddariadau pellach gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu.

456 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2022/2023 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 5 Hydref, 2023 gan y Pennaeth Datblygu Cynaliadwy.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â'r pumed Adroddiad Monitro Blynyddol am y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a oedd yn asesu perfformiad y polisïau wrth gyflawni amcanion integredig y Cynllun a oedd wedi ymgorffori datblygu

cynaliadwy ac Asesiad Amgylcheddol Strategol gan roi sylw i'r Fframwaith Monitro a nodir yn y CDLl ac y cytunwyd arno gan yr Arolygydd fel rhan o'r Archwiliad CDLl ac a fabwysiadwyd o ganlyniad gan y Cyngor ar 28 Mehefin, 2017.

Dilynodd fformat yr AMB y fformat awgrymedig a nodir yn fersiwn ddiweddaraf y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu, Argraffiad 3 (Mawrth 2020). Roedd yn cynnwys dangosyddion monitro craidd a lleol a defnyddiwyd system sgorio 'goleuadau traffig' fel cymorth gweledol i fonitro effeithiolrwydd polisïau'r Cynllun ac i roi trosolwg cyflym o berfformiad polisi.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyflawniadau polisi allweddol hyd yma ac yn cadarnhau nad oedd targedau wedi'u bwrw mewn sawl maes, er bod y rhan fwyaf o'r targedau monitro perthnasol yn parhau i gael eu cyflawni. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â meysydd sy'n debygol o ddioddef effeithiau'r hinsawdd economaidd bresennol ledled Cymru a'r DU ac er eu bod yn destun pryder, byddai'r dangosyddion hyn yn parhau i gael eu monitro mewn AMBau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, adroddwyd bod yr AMB yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud wrth weithredu'r rhan fwyaf o bolisïau'r Cynllun a bod strategaeth y CDLl yn parhau'n gadarn. Yn unol â hynny, argymhellwyd i'r Cabinet y dylid cyflwyno'r pumed AMB i LIC erbyn 31 Hydref, 2023 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â Rheoliad 37 y CDLl. Yn ogystal, roedd yr AMB yn cydnabod bod y Cyngor wedi dechrau gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol newydd (CDLlN), yn unol â Rheoliad CDLl 41.

Gwnaeth y Cynghorydd Protheroe sylw ar rai o'r cynrychioliadau gweledol yn yr adroddiad nad oeddent yn dangos y ward yr oedd hi'n ei chynrychioli. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'r rheiny'n cael eu diwygio cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Cynghorydd Ernest sut y byddai'r Cyngor yn sicrhau y byddai'r nodau a'r dyheadau o fewn y CDLl presennol nad oeddent wedi'u bodloni yn cael eu cario drosodd i'r 12 mis nesaf ac ar gyfer yr adolygiad nesaf. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod 700 o anheddau ychwanegol i fod i gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Cynllunio i'w cymeradwyo, felly mae'n debygol y byddai nifer o safleoedd yn cael eu symud ymlaen dros y 12 mis nesaf. Wrth i CDLl ddod i ben, disgwylid y byddai cyfradd y safleoedd yn lleihau gan y byddai'r rhan fwyaf o ddyraniadau eisoes wedi cael caniatâd a'u datblygu. Roedd yn bwysig cydnabod bod amodau'r farchnad ar gyfer adeiladwyr tai yn heriol, felly roedd yn bwysig i'r Adran Gynllunio sicrhau bod y ceisiadau cynllunio yn y cyflwr gorau posibl cyn eu hystyried.

Wrth gloi'r ddadl, dywedodd y Cadeirydd y byddai pob Aelod Etholedig yn cael cyfle i graffu ar y CDLl Newydd dros yr wythnosau nesaf, trwy sesiynau gweithdy ac adroddiad sy'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD – Y dylid derbyn pumed Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2023.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

457 TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI CHWARTER 1AF AC 2IL 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (CAC) –

Diben yr adroddiad, a gyflwynwyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, oedd darparu cynnydd ar argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ynghyd ag unrhyw lithriant ar gyfer 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol a'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/24:

- Olrhain Argymhelliad y Chwarter 1af, Ebrill i Fehefin 2023 (ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad);
- Olrhain Argymhelliad yr 2il Chwarter, Gorffennaf i Fedi 2023 (ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad);
- Atodlen y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/34 (ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad.

O ran gwaith adolygu Gorchwyl a Gorffen, dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y byddai Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu wedi cytuno i'r adolygiad i gaffael, fel yr awgrymwyd gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, gael ei symud ymlaen fel blaenoriaeth. Byddai gweithgarwch Gorchwyl a Gorffen pellach yn cael ei ystyried pan fyddai'r adolygiad hwnnw wedi'i gwblhau.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai adroddiadau ynglŷn â Thrwyddedau Parcio Preswyl a Gwasanaethau Bysus yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith cyn iddi gael ei lanlwytho i wefan y Cyngor.

Yn dilyn hynny,

ARGYMHELLWYD -

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B yr adroddiad.

(2) Bod atodlen y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer 2023/24 yn cael ei diweddaru i gynnwys adroddiadau yn y dyfodol ynghylch trwyddedau parcio i breswylwyr a newidiadau i wasanaethau bysiau lleol ac unwaith y caiff ei diweddaru ar gyfer Atodiad C i'w lanlwytho i wefan y Cyngor.

No.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.